Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

DYFODOL DISGLAIR

STRATEGAETH ADDYSG 2026–2030

POB DYSGWR YN FFYNNU, POB YSGOL YN GRYF, POB CYMUNED YN YMGYSTLLTU
EVERY LEARNER THRIVING, EVERY SCHOOL STRONG, EVERY COMMUNITY ENGAGED

CYNNWYS

Rhagair	Tudalen 3
Cyd-destun Lleol	Tudalen 4
Gweledigaeth a Gwerthoedd	Tudalen 5
Yr Achos dros Newid	Tudalen 6 - 7
Trosolwg o'r Strategaeth	**Tudalen 10 - 11**
Nod 1: Addysgu Ysbrydoledig, Dysgwyr Ymgysylltiedig	**Tudalen 12 - 13**
Nod 2: Darpariaeth Gynhwysol, Deilliannau Teg	**Tudalen 14 - 15**
Nod 3: Arweinyddiaeth Gref, Ysgolion Cryf	**Tudalen 16 - 17**
Nod 4: Partneriaid Cysylltiedig, Dysgwyr sy'n Ffynnu	**Tudalen 18 - 19**
Cyflawni'r Strategaeth	**Tudalen 20 - 22**
Deilliannau Dymunol	**Tudalen 23 - 24**
Cysylltiadau â Strategaethau a Chynlluniau Ehangach	
Cefnogi'r Cynllun Llesiant Corfforaethol	Tudalen 27
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)	Tudalen 28
Fframwaith Cenedl Marmot	Tudalen 29 - 30
Cysylltiadau â Strategaeth y Gwasanaeth Ieuenctid	Tudalen 31 - 32

RHAGAIR

Mae'n bleser gennym gyflwyno Dyfodol Disglair fel ein hymrwymiad ar y cyd i sicrhau'r gorau oll i blant a phobl ifanc Merthyr Tudful. Mae'r strategaeth hon yn cydnabod bod y deilliannau y mae ein dysgwyr yn eu cyflawni yn cael eu llywio nid yn unig gan yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol, ond hefyd gan gryfder eu teuluoedd, eu cymunedau a'r systemau ehangach sy'n eu cefnogi. Mae'n adlewyrchu ein cred ar y cyd bod gan bob plentyn a pherson ifanc ym Merthyr Tudful hawl i'r dyheadau uchaf, y cyfleoedd cyfoethocaf a'r gefnogaeth gryfaf i ddod yn oedolion hyderus, galluog a llwyddiannus.

Ar draws ein cymuned addysg, rydym yn rhannu ymrwymiad hirsefydlog i wella cyfleoedd bywyd drwy sicrhau bod pob dysgwr yn cael mynediad at brofiadau dysgu o ansawdd uchel. Rydym yn deall, pan fydd dysgwyr yn cael eu hysbrydoli, eu cefnogi a'u hannog i wireddu eu potensial llawn, eu bod yn ffynnu nid yn unig yn eu gwaith academaidd, ond hefyd yn gymdeithasol, yn emosiynol ac yn bersonol.

Er ein bod yn ymfalchïo yn y cynnydd a'r llwyddiannau a gyflawnwyd ar draws llawer o'n hysgolion drwy'r strategaeth flaenorol Codi Dyheadau, Codi Safonau (RARS), rydym hefyd yn cydnabod yr angen parhaus i gryfhau a mireinio ein darpariaeth addysgol. Gan adeiladu ar y sylfaen hon, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wella presenoldeb, ymgysylltiad, sgiliau bywyd a chyflawniad academaidd pob dysgwr.

Rydym hefyd yn glir ynghylch yr heriau sydd o'n blaenau. Mae lefelau cynyddol o angen, pwysau parhaus o ran recriwtio, a'r cyd-destun cymdeithasol ac economaidd ehangach oll yn rhoi gofynion ychwanegol ar ein hysgolion a'n gwasanaethau. Er hynny, rydym yn parhau'n hyderus y gallwn, drwy gydweithio, ymateb i'r heriau hyn gydag uchelgais a phenderfyniad. Bydd partneriaeth rhwng ysgolion, teuluoedd, gwasanaethau a chymunedau yn hanfodol er mwyn gwireddu'r dyheadau a nodir yn y strategaeth hon.

Mae Dyfodol Disglair yn fwy na strategaeth addysg. Mae'n ymrwymiad i gydweithio gydag uchelgais ddiwyro, tegwch a ffydd yn ein plant a'n pobl ifanc, ac yn addewid i greu'r amodau lle gall pob dysgwr ym Merthyr Tudful ffynnu yn yr ysgol, yn y gymuned a thrwy gydol eu hoes, er mwyn iddynt gael y dyfodol disgleiriaf posibl!

Cllr Gareth Lewis
Aelod Cabinet dros Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg

Mr Ryan Morgan
Cyfarwyddwr Addysg



CYD-DESTUN LLEOL

Mae tirwedd addysgol Merthyr Tudful yn cael ei llywio gan gyfuniad unigryw o ffactorau cymdeithasol, economaidd ac iechyd sy'n dylanwadu ar brofiadau dysgwyr yn yr ysgol ac ar y ffordd y mae'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid yn cynllunio cymorth. Mae gan yr ardal dreftadaeth ddiwydiannol gyfoethog ac ymdeimlad cryf o hunaniaeth gymunedol, ond mae hefyd yn wynebu heriau parhaus sy'n gysylltiedig ag amddifadedd, anghydraddoldebau iechyd a newid economaidd. Mae'r ffactorau hyn yn creu cyd-destun lle mae addysg yn chwarae rhan hollbwysig wrth wella cyfleoedd bywyd a chefnogi llesiant hirdymor y gymuned.




Ynglŷn â Merthyr Tudful

Wedi'i leoli yn ardal Blaenau'r Cymoedd, tua 20 milltir o brifddinas Cymru, Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r cyngor lleiaf yng Nghymru ac mae'n rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae Cyfrifiad y DU 2021 yn rhoi'r ffeithiau a'r ffigurau canlynol i ni am Ferthyr Tudful:

CYFANSWM Y BOBLOGAETH:

58,839

POBLOGAETH YN ÔL GRŴP OEDRAN



FFYNHONNELL: CYFRIFIAD 2021

IECHYD:



DA IAWN — 45.4% — 26,718 POBL



IAWN — 30.2% — 17,786 POBL



GWEDDOL — 15% — 8,837 POBL



GWAEL — 7% — 4,112 POBL



GWAEL IAWN — 2.4% — 1,386 POBL

FFYNHONNELL: CYFRIFIAD 2021

ETHNIGRWYDD:

FFYNHONNELL: CYFRIFIAD 2021

91.7% 57,140 POBL	NODI EU BOD YN WYN
0.9% 510 POBL	NODI EU BOD O GRŴP ETHNIG CYMYSG / AML-ETHNIG
1.5% 871 POBL	NODI EU BOD YN ASIAIDD / ASIAIDD PRYDEINIG
0.2% 91 POBL	NODI EU BOD YN DDU / AFFRICANAIDD / CARIBÏAIDD / PRYDEINIG
0.4% 227 POBL	NODI EU BOD O GRŴP ETHNIG ARALL

Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn dangos mai prif dref Merthyr Tudful sydd â'r crynodiad uchaf o'r boblogaeth, sef tua 43,000 o bobl. Dyma'r brif ganolfan fanwerthu a gwasanaethau ym Mlaenau'r Cymoedd, gan gyflawni rôl strategol allweddol yn y rhanbarth. Mae Merthyr Tudful hefyd yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Nododd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru fod lefelau uchel o amddifadedd ym Merthyr Tudful, gyda 28 o'i 36 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) ymhlith y 50% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae gan y Cyngor uchelgais glir i drechu tlodi.

Ar yr un pryd, mae'r awdurdod lleol yn parhau i weithredu o dan bwysau ariannol sylweddol, a ysgogir gan alw cynyddol, costau chwyddiant a setliadau cyllido cyfyngedig yn y sector cyhoeddus. Mae'r pwysau hyn yn cael eu dwysáu ymhellach yn ein hysgolion gan lefelau cynyddol o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac anghenion dysgwyr sy'n fwyfwy cymhleth, heriau parhaus o ran recriwtio a chadw staff â chymwysterau addas ar draws gwasanaethau addysg a chymorth allweddol, a chyfraddau genedigaethau sy'n gostwng, sydd wedi cyfrannu at ostyngiad yn nifer y disgyblion a chynnydd mewn capasiti dros ben mewn ysgolion. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae cynnal ffocws cryf ar wella addysg, cynhwysiant a sgiliau'r gweithlu yn parhau'n hanfodol er mwyn gwella deilliannau i blant a phobl ifanc, gan leihau anghydraddoldebau a chefnogi cynaliadwyedd a gwytnwch hirdymor ysgolion a chymunedau lleol.

Beth mae hyn yn ei olygu i strategaeth Dyfodol Disglair

Mae'r cyd-destun hwn yn atgyfnerthu pam mae gweledigaeth sy'n seiliedig ar le mor hanfodol. Mae pwysau cymdeithasol ac economaidd, ynghyd ag anghydraddoldebau iechyd, yn golygu bod yn rhaid i addysg wneud mwy na sicrhau deilliannau academaidd yn unig. Rhaid iddi gefnogi llesiant, meithrin gwytnwch ac agor llwybrau at ddysgu gydol oes. Mae angen i ysgolion, teuluoedd, gwasanaethau a chymunedau gydweithio i fynd i'r afael â rhwystrau, codi disgwyliadau a chreu cyfleoedd sy'n helpu pob dysgwr i ffynnu. Mae strategaeth **Dyfodol Disglair** wedi'i llunio i ymateb yn uniongyrchol i'r realiti lleol hwn, gan sicrhau bod gwelliant wedi'i wreiddio yn anghenion, cryfderau a dyheadau cymunedau Merthyr Tudful.



GWELEDIGAETH A GWERTHOEDD

Mae Dyfodol Disglair yn cyflwyno gweledigaeth feiddgar, sy'n seiliedig ar le, ar gyfer addysg ym Merthyr Tudful, lle mae:

Pob dysgwr yn ffynnu
Pob ysgol yn gryf
Pob cymuned yn ymgysylltu

Mae'n adlewyrchu cred gyffredin bod plant a phobl ifanc Merthyr Tudful yn haeddu'r dyheadau uchaf, y cyfleoedd cyfoethocaf a'r gefnogaeth gryfaf i wireddu eu potensial. Mae'r weledigaeth hon yn cydnabod bod addysg yn ganolog i ddyfodol y Fwrdeistref: mae'n llywio llesiant, yn cryfhau cymunedau ac yn sbarduno ffyniant cymdeithasol ac economaidd hirdymor. Er mwyn llywio'r cam nesaf hwn o welliant, mae Dyfodol Disglair wedi'i seilio ar bedair 'colofn' graidd sy'n diffinio gwerthoedd, ymddygiadau a disgwyliadau'r system gyfan.


Colofn 1 - Tegwch
Mae Tegwch yn ymrwymo'r system addysg ym Merthyr Tudful i degwch, cynhwysiant a chael gwared ar y rhwystrau sy'n atal dysgwyr rhag cael mynediad at ddarpariaeth o ansawdd uchel. Mae'n golygu cydnabod bod angen mwy o gymorth ar rai dysgwyr nag eraill a sicrhau bod adnoddau, arbenigedd a chyfleoedd yn cael eu dosbarthu mewn ffyrdd sy'n galluogi pob dysgwr, waeth beth fo'i gefndir, ei angen neu ei amgylchiadau, i lwyddo. Mae tegwch yn ymwneud â chau bylchau mewn cyrhaeddiad, ymgysylltiad a phrofiad, a sicrhau bod pob dysgwr yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi drwy gydol ei daith addysgol.

Colofn 2 - Rhagoriaeth
Mae Rhagoriaeth yn adlewyrchu'r uchelgais am safonau cyson uchel mewn addysgu, arweinyddiaeth a'r cwricwlwm ar draws pob ysgol. Mae wedi'i gwreiddio yn y gred y dylai pob dysgwr gael profiad o addysgu ysbrydoledig, cwricwlwm cyfoethog a diddorol, a disgwyliadau uchel sy'n eu hymestyn a'u herio. Nid yw rhagoriaeth yn golygu perffeithrwydd; mae'n ymwneud â gwelliant parhaus, chwilfrydedd proffesiynol ac ymrwymiad i arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n gofyn am weithlu cryf a hyderus sy'n cael ei gefnogi drwy ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel a datblygiad cydweithredol.

Colofn 3 - Perthyn
Mae Perthyn yn pwysleisio pwysigrwydd perthnasoedd, hunaniaeth a chynhwysiant. Mae'n cydnabod bod dysgwyr yn ffynnu pan fyddant yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu ac yn teimlo cysylltiad â'u hysgol a'u cymuned. Mae perthyn yn golygu creu amgylcheddau lle mae pob plentyn yn teimlo ei fod yn bwysig, lle caiff amrywiaeth ei dathlu, a lle gall dysgwyr weld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu yng nghwricwlwm, diwylliant a gwerthoedd eu hysgol. Mae hefyd yn amlygu pwysigrwydd presenoldeb, ymgysylltiad a llesiant fel sylfeini ar gyfer dysgu a llwyddiant hirdymor.

Colofn 4 - Partneriaeth
Mae Partneriaeth yn cydnabod bod deilliannau addysgol cryf yn deillio o ysgolion, teuluoedd, gwasanaethau a chymunedau yn cydweithio gydag ymdeimlad cyffredin o bwrpas, a phan ddeellir addysg fel cyfrifoldeb ar y cyd sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i gatiau'r ysgol. Mae'n adlewyrchu ymrwymiad i gydweithio ar draws y system, lle mae ysgolion yn cefnogi ei gilydd, asiantaethau'n cydlynu eu gwaith o amgylch anghenion dysgwyr, a chymunedau'n chwarae rhan weithredol wrth lunio a chynnal llwyddiant addysgol.

Mae partneriaeth hefyd yn cwmpasu rôl ehangach addysg ym mywyd y gymuned, gan gefnogi trigolion o bob oed i gael mynediad at ddysgu, datblygu sgiliau newydd a manteisio ar gyfleoedd sy'n cryfhau llesiant, cyflogadwyedd a chysylltiadau cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad ar y cyd i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru fel rhan sy'n uno hunaniaeth Merthyr Tudful. Drwy bartneriaeth, byddwn yn adeiladu system addysg gydlynol a chysylltiedig sy'n cefnogi dysgu gydol oes, yn cynnal gwelliant ac yn sicrhau bod llwyddiant yn cael ei rannu ar draws y gymuned gyfan.





YR ACHOS DROS NEWID

Mae addysg ym Merthyr Tudful ar adeg bwysig o adnewyddu. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae strategaeth Codi Dyheadau, Codi Safonau (RARS) wedi darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwelliant, gan gryfhau ein hysgolion, codi disgwyliadau a helpu mwy o'n dysgwyr i lwyddo. Wrth i'r dirwedd o'n cwmpas barhau i newid, dyma'r adeg iawn i adeiladu ar y cynnydd hwnnw gyda strategaeth sy'n ehangach, yn fwy cydweithredol ac wedi'i gwreiddio'n gadarn ym mhrofiadau bywyd ein dysgwyr, ein teuluoedd a'n gweithwyr proffesiynol.

Mae Dyfodol Disglair yn nodi'r cam nesaf hwnnw. Mae'n cyflwyno gweledigaeth uchelgeisiol, sy'n seiliedig ar le, ar gyfer addysg ym Merthyr Tudful, lle mae pob dysgwr yn ffynnu, pob ysgol yn gryf a phob cymuned yn ymgysylltu. Mae'r weledigaeth hon wedi'i seilio ar bedair 'colofn' graidd, sef Tegwch, Rhagoriaeth, Perthyn a Phartneriaeth. Gyda'i gilydd, maent yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gael gwared ar rwystrau, darparu addysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel, cryfhau cysylltiadau cymunedol a sicrhau bod gwella yn gyfrifoldeb a rennir ar draws y system gyfan. Mae hyn yn golygu cael gwared ar rwystrau, mynd i'r afael ag anfantais, cefnogi llesiant a chynhwysiant, a gosod ysgolion wrth galon eu cymunedau, gan gynnal ffocws diwyro ar ddeilliannau o ansawdd uchel.

Mae'r strategaeth wedi'i llunio drwy gydweithio a chyd-lunio gwirioneddol, gan ddod â safbwyntiau penaethiaid, staff ysgolion, llywodraethwyr, dysgwyr, gwasanaethau'r awdurdod lleol, partneriaid rhanbarthol, aelodau etholedig, busnesau a thrigolion ynghyd. Mae'r berchnogaeth gyfunol hon yn hanfodol. Mae'n sicrhau bod ein blaenoriaethau'n adlewyrchu anghenion lleol gwirioneddol a bod y cyfrifoldeb am welliant yn cael ei rannu, yn dryloyw ac wedi'i gydlynu.

Yr hyn a ddywedodd rhanddeiliaid wrthym...

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu strategaeth newydd Dyfodol Disglair, cynhaliwyd rhaglen ymgynghori gynhwysfawr i gasglu safbwyntiau a helpu i lywio cyfeiriad blaenoriaethau'r dyfodol. Roedd yr ymgysylltu hwn yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys aelodau etholedig, llywodraethwyr, staff ysgolion, disgyblion, rhieni, trigolion lleol a busnesau. Diben y broses hon oedd sicrhau bod y strategaeth yn cael ei llywio gan brofiadau, safbwyntiau a dyheadau'r rhai sydd â'r cysylltiad agosaf ag addysg a bywyd cymunedol, ac i nodi'n glir y meysydd allweddol lle mae angen gweithredu a gwella mewn ffordd benodol wrth symud ymlaen.

Er bod yr ymatebion yn cwmpasu ystod eang o waith yr Awdurdod Lleol sydd ei angen i ddarparu addysg o ansawdd uchel, daeth nifer o themâu cyson i'r amlwg drwy'r broses ymgynghori. Roedd y rhain yn amlygu blaenoriaethau clir i lywio datblygiad y nodau o fewn strategaeth Dyfodol Disglair:

- **Dylai addysgu a dysgu o ansawdd uchel fod yn ganolog** – Pwyslais cryf ar arfer cyson o ansawdd uchel yn yr ystafell ddosbarth, wedi'i ategu gan addysgu effeithiol er mwyn gwella deilliannau i bob dysgwr. Cryfhau dulliau fel bod asesu ac adborth yn bwrpasol, a sicrhau bod ymgysylltiad â'r cwricwlwm yn cefnogi cynnydd parhaus dysgwyr a phresenoldeb.
- **Diwallu anghenion pob dysgwr** – Sicrhau bod cymorth yn ymateb i'r ystod lawn o anghenion, gan gynnwys anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, gan hefyd ymestyn a chefnogi'r dysgwyr mwyaf galluog i anelu'n uchel a chyflawni.
- **Ffocws cryf ar lesiant ac ymgysylltiad** – Blaenoriaethu iechyd meddwl a llesiant, gan gydnabod eu heffaith uniongyrchol ar bresenoldeb, cyfranogiad a deilliannau.
- **Arfer cynhwysol** – Gwreiddio dulliau sy'n adnabod rhwystrau'n gynnar ac yn sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cael mynediad, cymryd rhan a llwyddo.
- **Datblygiad digidol** – Parhau i ddatblygu sgiliau, seilwaith ac arferion digidol er mwyn gwella dysgu, hygyrchedd a pharodrwydd ar gyfer y dyfodol.
- **Ansawdd y ddarpariaeth ar draws pob lleoliad** – Sicrhau cysondeb a safonau uchel ar draws ysgolion a gwasanaethau.
- **Arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol** – Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel, ochr yn ochr â llywodraethu effeithiol, er mwyn sbarduno gwelliant, her ac atebolrwydd.
- **Cysylltiadau cryfach â theuluoedd, sgiliau a dyheadau gydol oes** – Ehangu cyfleoedd sy'n cysylltu teuluoedd â dysgu, cyflogaeth a llwybrau sgiliau, gan gefnogi deilliannau tymor hwy.
- **Cryfhau gweithio mewn partneriaeth** – Meithrin cydweithio dyfnach rhwng ysgolion a phartneriaid, gyda chyfrifoldeb ar y cyd am welliant.
- **Parhau i fuddsoddi mewn adeiladau ysgol** – Sicrhau bod adeiladau'n addas at y diben ac yn darparu amgylcheddau ysbrydoledig i blant a phobl ifanc ddysgu ynddynt ac ohonynt.
- **Camau wedi'u targedu i leihau anghydraddoldeb** – Canolbwyntio adnoddau ac ymyriadau lle mae'r angen mwyaf er mwyn gwella deilliannau a lleihau bylchau.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ac adborth gan randdeiliaid, mae'r strategaeth wedi'i llunio o amgylch pedwar nod uchelgeisiol a fydd yn llywio gwelliant dros y pum mlynedd nesaf. Gyda'i gilydd, mae'r nodau hyn yn nodi'r deilliannau hirdymor yr ydym am eu cyflawni ar gyfer plant a phobl ifanc ledled Merthyr Tudful, ac fe'u cefnogir gan gyfres o ymrwymiadau allweddol a fydd yn sbarduno'r gwaith o gyflawni'r strategaeth a mesur cynnydd. Y pedwar nod yw:



Addysgu ysbrydoledig, dysgwyr ymgysylltiedig sy'n mynychu'n rheolaidd ac yn cyflawni'r deilliannau uchelgeisiol y maent yn anelu atynt.



Darpariaeth Gynhwysol, Deilliannau Teg ym mhob ysgol, lle mae staff yn datblygu eu sgiliau a dysgwyr yn cael eu cefnogi i wireddu eu potensial i'r eithaf.



Arweinyddiaeth gref ar bob lefel sy'n sicrhau **ysgolion cryf** a darpariaeth o ansawdd uchel.



Partneriaid Cysylltiedig, Dysgwyr sy'n Ffynnu, lle mae dulliau sy'n seiliedig ar le yn goresgyn rhwystrau i ymgysylltu.

Mae'r nodau hyn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â Chynllun Llesiant Corfforaethol Merthyr Tudful a blaenoriaethau strategol ehangach, gan gynnwys codi cyrhaeddiad, gwella llesiant, cefnogi adfywio a sicrhau cynaliadwyedd.

Er mwyn sicrhau cyflawniad effeithiol, bydd y strategaeth yn cael ei chefnogi gan Gynllun Cyflawni Dyfodol Disglair, a gaiff ei ddiweddaru'n flynyddol, gan ddarparu eglurder, tryloywder a thrylwyredd ar draws yr holl weithgarwch gwella. Bydd hwn yn nodi disgwyliadau clir, yn cryfhau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant, ac yn hyrwyddo dull cytbwys sy'n darparu her a chefnogaeth wrth gydnabod cynnydd. Er mwyn cryfhau atebolrwydd, byddwn yn cyflwyno ein Hadolygiad Blynyddol Dyfodol Disglair i roi diweddariad blynyddol ar gynnydd i randdeiliaid allweddol ac i roi gwybod yn gyhoeddus i drigolion am ein cynnydd a'n cyflawniadau. Byddwn hefyd yn sefydlu cyfarfodydd Adolygu Perfformiad a Chymorth Ysgolion rheolaidd er mwyn sicrhau bod cynnydd ysgolion ar draws yr Awdurdod Lleol yn cael ei fonitro'n rheolaidd.

Mae Dyfodol Disglair yn fwy na strategaeth: mae'n ymrwymiad ar y cyd i blant, pobl ifanc a theuluoedd Merthyr Tudful. Mae'n cydnabod cryfderau ein hysgolion a'n cymunedau, yn cydnabod yr heriau sy'n ein hwynebu, ac yn nodi llwybr clir ar y cyd tuag at system addysg gryfach, decach a mwy uchelgeisiol.

Gyda'n gilydd, byddwn yn sicrhau bod pob dysgwr ym Merthyr Tudful yn cael y cyfle i ffynnu, gan roi iddynt bopeth sydd ei angen arnynt i gyflawni'r dyfodol disgleiriaf posibl!



STRATEGAETH DYFODOL DISGLAIR



TROSOLWG O'R STRATEGAETH

Mae Dyfodol Disglair yn cyflwyno gweledigaeth uchelgeisiol, seiliedig ar le Merthyr Tudful ar gyfer addysg rhwng 2026 a 2030. Mae'n nodi ymrwymiad ar y cyd i sicrhau bod pob dysgwr yn ffynnu, pob ysgol yn gryf, a phob cymuned yn ymgysylltu. Wedi'i gwreiddio yng ngwerthoedd Tegwch, Rhagoriaeth, Perthyn a Phartneriaeth, mae'r strategaeth yn ymateb yn uniongyrchol i gyd-destun unigryw Merthyr Tudful, lle mae uchelgais addysgol, cydnerthedd cymunedol ac anghydraddoldebau parhaus yn cydblethu, ac mae'n amlinellu dull cydlynol a chyfunol o wella cyfleoedd bywyd pob plentyn a pherson ifanc.

Mae'r strategaeth yn adeiladu ar gyflawniadau'r strategaeth addysg flaenorol, Codi Dyheadau, Codi Safonau (RARS), gan fynd i'r afael ar yr un pryd â'r dirwedd sy'n esblygu o ganlyniad i ddiwygio'r cwricwlwm, newid digidol, pwysau ar y gweithlu a lefelau cynyddol o angen. Wedi'i datblygu drwy gyd-lunio gydag ysgolion, dysgwyr, llywodraethwyr, gwasanaethau, partneriaid a'r gymuned, mae Dyfodol Disglair yn cynrychioli ymrwymiad system gyfan i welliant parhaus, cydweithio lleol ac effaith hirdymor.

Er mwyn gwireddu ei gweledigaeth, mae'r strategaeth wedi'i strwythuro o amgylch pedwar nod strategol, pob un â'i gyfres ei hun o ymrwymiadau penodol i weithredu. Y nodau hyn yw sicrhau:

- **Addysgu Ysbrydoledig, Dysgwyr Ymgysylltiedig** – Sicrhau bod pob dysgwr yn profi addysgu o ansawdd uchel a chwricwlwm cyfoethog a pherthnasol sy'n codi dyheadau, yn cryfhau sgiliau craidd ac yn paratoi pobl ifanc ar gyfer addysg bellach, cyflogaeth a dinasyddiaeth weithgar.
- **Darpariaeth Gynhwysol, Deilliannau Teg** – Rhoi perthyn, lles, adnabod yn gynnar a mynediad teg wrth galon y system fel bod pob dysgwr yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi, ac yn gallu cymryd rhan lawn a hyderus ym mywyd yr ysgol.
- **Arweinyddiaeth Gref, Ysgolion Cryf** – Cryfhau capasiti arweinyddiaeth a llywodraethu ar draws pob ysgol, gan sicrhau bod gan arweinwyr a chyrff llywodraethu yr eglurder, y gefnogaeth a'r cyfeiriad strategol sydd eu hangen i ddarparu dysgu o ansawdd uchel a sicrhau gwelliant parhaus bob dydd, yn ogystal â sicrhau mynediad at amgylcheddau ac adnoddau dysgu o ansawdd uchel.
- **Partneriaid Cysylltiedig, Dysgwyr sy'n Ffynnu** – Ymestyn addysg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth drwy bartneriaethau cryf a chydweithio amlasiantaethol, gan hyrwyddo cyfoethogi diwylliannol, hunaniaeth ac ymdeimlad cryf o berthyn. Mae hyn yn cynnwys cefnogi llwybrau dysgwyr i gyflogaeth, hyfforddiant a phrentisiaethau, gan sicrhau hefyd bod teuluoedd yn gallu manteisio ar gyfleoedd lleol ar gyfer dysgu oedolion, cyflogadwyedd a lles ariannol.

Mae'r strategaeth wedi'i halinio'n gadarn â gweledigaeth a dyheadau Cwricwlwm i Gymru a bydd yn hyrwyddo datblygiad dysgwyr uchelgeisiol a galluog; cyfranwyr mentrus a chreadigol; dinasyddion egwyddorol a gwybodus; ac unigolion iach a hyderus. Drwy ei phedwar nod strategol a'r ymrwymiadau cysylltiedig, mae'r strategaeth yn ceisio creu'r amodau i bob plentyn a pherson ifanc ffynnu'n academaidd, yn gymdeithasol ac yn emosiynol, gan eu harfogi â'r wybodaeth, y sgiliau, y gwerthoedd a'r hyder sydd eu hangen i lwyddo mewn addysg, cyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau, a llywio byd sy'n gynyddol gymhleth ac yn newid yn barhaus. Drwy gryfhau addysgu, cynhwysiant, arweinyddiaeth a gweithio mewn partneriaeth ledled y Fwrdeistref, bydd y strategaeth yn cefnogi ysgolion i wireddu'r pedwar diben ar gyfer pob dysgwr.


Gyda'i gilydd, mae'r nodau hyn yn cyd-fynd â Fframwaith Cenedl Marmot, y Cynllun Llesiant Corfforaethol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Cwricwlwm i Gymru, Cymraeg 2050, a blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer addysg a chydraddoldeb, gan sicrhau bod addysg yn cyfrannu at ddyfodol tecach, iachach a mwy cynaliadwy i Ferthyr Tudful.

Mae **Dyfodol Disglair** hefyd yn cael ei chryfhau gan nifer o agweddau strategol trawsbynciol sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod y strategaeth yn uchelgeisiol ac yn gyflawnadwy:

- Ymrwymiad ariannol ac adnoddau sy'n sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei flaenoriaethu lle y gall gael yr effaith fwyaf, wedi'i gefnogi gan egwyddorion dyrannu tryloyw sy'n seiliedig ar angen.
- Trefniadau llywodraethu partneriaeth cryfach, gan egluro atebolrwydd ar y cyd, rhannu data a chyfrifoldeb ar draws y system rhwng addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, cymorth cynnar a phartneriaid cymunedol.
- Ymrwymiad i lais dysgwyr a theuluoedd, gan sicrhau bod plant, pobl ifanc a rhieni yn helpu i lunio'r gwaith o weithredu'r strategaeth yn barhaus a'i chyfeiriad yn y dyfodol.
- Uchelgais ar gyfer y gweithlu ar draws y system, gan gefnogi recriwtio, cadw staff, lles, llwybrau gyrfa a datblygu gweithlu sefydlog, arbenigol sy'n cael ei arwain gan werthoedd.
- Ffocws ar gynnydd a throsglwyddo, gan sicrhau teithiau llyfn a chefnogol o'r Blynyddoedd Cynnar hyd at lwybrau ôl-16, cyflogaeth a dysgu gydol oes.
- Model monitro ac adolygu cadarn, gyda chylchoedd data clir, craffu rheolaidd ac adrodd tryloyw ar gynnydd.
- Aliniad penodol ag ymrwymiadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chymru Wrth-hiliol, gan sicrhau tegwch, cynrychiolaeth a phrofiadau sy'n cadarnhau hunaniaeth pob dysgwr.
- Ymrwymiad clir i gynaliadwyedd, gan sicrhau bod ystad ysgolion, arferion addysgu a phrofiadau dysgu yn cyfrannu at ddyfodol amgylcheddol gyfrifol, cynaliadwy ac iach.
- Dull strategol o reoli risg, gan gydnabod y pwysau ar y system ac amlinellu sut y bydd Merthyr Tudful yn ymateb drwy gydnerthedd, cydweithio a chymorth wedi'i dargedu.

Mae Deilliannau Dymunol y strategaeth yn diffinio'r effaith hirdymor: gwell cyflawniad, lles cryfach, llai o anghydraddoldebau, amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel, gallu digidol hyderus, gweithlu medrus, cysylltiadau cymunedol cyfoethocach, y Gymraeg yn ffynnu, a gwell cyfleoedd bywyd i bob plentyn a pherson ifanc.

Mae **Dyfodol Disglair** yn fwy na strategaeth addysg. Mae'n ymrwymiad ar y cyd. Ymrwymiad i weithio gyda'n gilydd gydag uchelgais ddiwyro, tegwch a chred yn ein plant a'n pobl ifanc. Addewid i greu'r amodau lle gall pob dysgwr ym Merthyr Tudful ffynnu yn yr ysgol, yn y gymuned a thrwy gydol eu bywydau, er mwyn iddynt gael y dyfodol disgleiriaf posibl!



ADDYSGU YSBRYDOLEDIG, DYSGWYR YMGYSYLLTIEDIG



Mae nod 'Addysgu Ysbrydoledig, Dysgwyr Ymgysylltiedig' o fewn strategaeth Dyfodol Disglair yn anelu at sicrhau bod pob dysgwr ym Merthyr Tudful yn elwa ar addysgu cynhwysol o ansawdd uchel a chwricwlwm cyfoethog ac ymgysylltiol sy'n eu cymell, eu herio a'u cefnogi i ffynnu. Ar yr un pryd, byddwn yn sicrhau mynediad teg fel y gall pob disgybl, waeth beth fo'i gefndir, ei anghenion neu ei amgylchiadau, gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol, mynychu'n rheolaidd a manteisio i'r eithaf ar ei ddysgu.

Yn ganolog i'r uchelgais hwn mae system addysg gydweithredol sy'n perfformio'n dda, lle mae dysgu proffesiynol, arloesi a gweithio mewn partneriaeth yn cryfhau addysgu a dysgu ar draws pob ysgol. Drwy gefnogi dysgwyr i ddatblygu hyder mewn llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol, hyrwyddo'r Gymraeg fel rhan annatod o ddysgu bob dydd, a darparu cymorth wedi'i dargedu i ysgolion lle mae ei angen fwyaf, byddwn yn gwella ansawdd addysg ac yn cyfoethogi profiadau dysgwyr er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc ym Merthyr Tudful yn cael y cyfle i ffynnu.

Beth mae hyn yn ei olygu i ddysgwyr ym Merthyr Tudful...

Mae'r nod hwn yn canolbwyntio ar greu profiadau dysgu sy'n gyson, yn uchelgeisiol ac yn ymgysylltiol, fel y gall dysgwyr ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y dyfodol. Mae'n cysylltu'n uniongyrchol â Chwricwlwm i Gymru, sy'n pwysleisio dull mwy hyblyg sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.

Mae'r deilliannau allweddol yn cynnwys:

- Addysgu ysbrydoledig o ansawdd uchel – Mae dysgwyr yn elwa ar athrawon sy'n defnyddio arferion effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn addasu i anghenion unigol ac yn creu ystafelloedd dosbarth lle caiff chwilfrydedd, uchelgais ac annibyniaeth eu hannog.
- Cwricwlwm sy'n ennyn diddordeb ac yn ysgogi – Mae'r cwricwlwm a gynigir yn ein hysgolion wedi'i gynllunio i fod yn berthnasol i fywydau dysgwyr, wedi'i wreiddio mewn cyd-destunau byd go iawn, ac yn ddigon hyblyg i gefnogi gwahanol lwybrau, boed yn academaidd, yn alwedigaethol neu'n seiliedig ar sgiliau. Mae hyn yn helpu dysgwyr i weld pwrpas yn eu dysgu ac i barhau i ymgysylltu.
- Codi dyheadau a gwella deilliannau – Mae strategaeth Dyfodol Disglair Merthyr Tudful yn pwysleisio bod pob plentyn a pherson ifanc yn haeddu'r cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd. Mae sylfeini cadarn mewn llythrennedd a rhifedd yn parhau'n hanfodol i'r uchelgais hwn, gan sicrhau bod pob plentyn yn datblygu'r sgiliau, yr hyder a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i ffynnu mewn dysgu ac mewn bywyd.
- Dysgwyr â'r sgiliau digidol i ffynnu mewn byd sy'n newid – Mae dysgwyr yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau, yr hyder a'r creadigrwydd digidol sydd eu hangen i gymryd rhan, dysgu a ffynnu mewn cymdeithas sy'n gynyddol ddigidol. Drwy ddefnyddio technoleg mewn modd ystyrlon ar draws y cwricwlwm, caiff dysgwyr eu galluogi i wneud dewisiadau gwybodus, datrys problemau, cyfathrebu'n effeithiol a pharatoi ar gyfer addysg, cyflogaeth a bywyd yn y dyfodol.
- Cefnogi cynnydd a pharodrwydd ar gyfer y dyfodol – Nid gwella dysgu o ddydd i ddydd yn unig yw'r nod, ond hefyd paratoi pobl ifanc ar gyfer addysg bellach, prentisiaethau, cyflogaeth a dinasyddiaeth weithgar. Ochr yn ochr â llwybrau academaidd a galwedigaethol cryf, bydd dysgwyr yn datblygu'r sgiliau cyfathrebu, creadigrwydd a datrys problemau sydd eu hangen i lwyddo mewn economi a chymdeithas sy'n newid yn gyflym.

Pam mae hyn yn bwysig i'n dysgwyr...

Drwy ganolbwyntio ar sicrhau 'Addysgu Ysbrydoledig, Dysgwyr Ymgysylltiedig', mae strategaeth Dyfodol Disglair yn ceisio:

- Lleihau anghydraddoldebau ym mhrofiadau a chyflawniad dysgwyr, gan adlewyrchu'r ymrwymiad ehangach i leihau anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol o blentyndod cynnar.
- Meithrin diwylliant o ddisgwyliadau uchel ar draws pob ysgol, gan sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei alluogi i ddatblygu ei alluoedd a'i ddyheadau, waeth beth fo'i gefndir.
- Sicrhau bod dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u herio, gan gefnogi'r egwyddor o gryfhau gallu unigolion i gael mwy o reolaeth dros eu bywydau.
- Cryfhau'r cysylltiad rhwng addysg, lles hirdymor, cyflogadwyedd a ffyniant cymunedol, gan gyd-fynd â ffocws Marmot Nation ar greu cyflogaeth deg, cymunedau cynaliadwy a chyfleoedd i bob person ifanc.





Yr Hyn y Byddwn yn Ymrwymo I'w Wneud...

Er mwyn cyflawni'r nod hwn, byddwn yn gweithio gyda'n hysgolion a'n partneriaid i:

Ymrwymiad 1

Datblygu a chynnal addysgu a dysgu cynhwysol o ansawdd uchel yn gyson ar draws pob ysgol drwy gydweithio, dysgu proffesiynol ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Ymrwymiad 2

Cefnogi ysgolion i gyflwyno Cwricwlwm uchelgeisiol ac ymgysylltiol sy'n adlewyrchu'r cyd-destun lleol, yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, ac yn paratoi dysgwyr ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol.

Ymrwymiad 3

Hyrwyddo sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol dysgwyr, gan gynnwys defnydd effeithiol o ddeallusrwydd artiffisial (DA) a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg, er mwyn cefnogi dysgu gydol oes, cyflawniad a chyflogadwyedd yn y dyfodol.

Sut Olwg sydd ar Lwyddiant...

I Ddysgwyr

Mae dysgwyr yn unigolion brwdfrydig, uchelgeisiol a hyderus sy'n mwynhau dysgu, yn gwneud cynnydd cryf ac yn cyflawni deilliannau gwell. Maent yn elwa ar brofiadau addysgol o ansawdd uchel yn gyson, yn datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol cryf, ac yn dod yn ddefnyddwyr cyfrifol a chreadigol o dechnoleg. Gyda disgwyliadau uchel a diwylliant o herio ac annog, mae dysgwyr yn cymryd perchnogaeth gynyddol o'u dysgu ac wedi'u paratoi'n dda ar gyfer addysg, cyflogaeth a bywyd yn y dyfodol.

I Ysgolion

Mae ysgolion yn darparu profiadau dysgu cynhwysol, uchelgeisiol ac o ansawdd uchel yn gyson, sy'n galluogi pob dysgwr i wneud cynnydd cryf a chyflawni ei botensial. Drwy addysgu effeithiol, cwricwlwm eang a pherthnasol, a chydweithio cryf rhwng gweithwyr proffesiynol, mae ysgolion yn creu amgylcheddau lle mae dysgwyr yn cael eu hysbrydoli, eu cefnogi a'u herio, waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau.

I'r Awdurdod Lleol

Mae'r Awdurdod Lleol yn sicrhau system addysg fwy cyson sy'n gwella ei hun, gyda deilliannau cryfach ar draws pob ysgol, gwell llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, a llai o anghydraddoldebau i ddysgwyr sy'n agored i niwed. Drwy sicrhau ansawdd yn effeithiol, cydweithio a rhannu arferion, mae ysgolion yn cryfhau ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth gwricwlaidd yn barhaus, gan arwain at lefelau uwch o ymgysylltiad, presenoldeb, dyhead a chyflawniad ymhlith dysgwyr ledled y Fwrdeistref.

I Rieni, Gofalwyr a'r Gymuned Ehangach

Mae rhieni, gofalwyr a'r gymuned ehangach yn bartneriaid gweithredol mewn addysg, gyda hyder mewn ysgolion lleol a chyfrifoldeb ar y cyd am gefnogi plant a phobl ifanc i lwyddo. Mae cydweithio cryf rhwng ysgolion, teuluoedd, cyflogwyr a sefydliadau cymunedol yn cyfoethogi dysgu, yn codi dyheadau ac yn helpu pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y dyfodol, gan gyfrannu at gymunedau cryfach, llai o anghydraddoldeb a gwell lles ledled Merthyr Tudful.

DARPARIAETH GYNHWYSOL, DEILLIANNAU TEG



Mae nod 'Darpariaeth Gynhwysol, Deilliannau Teg' strategaeth Dyfodol Disglair wedi'i seilio ar y gred bod pob dysgwr yn bwysig a bod pob dysgwr yn gallu llwyddo. P'un a yw dysgwr yn fwy galluog, ag anghenion dysgu ychwanegol, neu angen cymorth ar unrhyw adeg yn ystod ei daith addysgol, dylai deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gynnwys, ac yn gallu cymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Mae'r nod yn rhoi cynhwysiant wrth wraidd pob penderfyniad, gan sicrhau bod rhwystrau i ddysgu, cyfranogiad a chyflawniad yn cael eu nodi'n gynnar ac yr eir i'r afael â nhw mewn modd rhagweithiol.

I ddysgwyr, mae hyn yn golygu mynediad teg at addysgu o ansawdd uchel, cymorth cyson ar draws pob ysgol, a disgwyliadau uchel sy'n cydnabod ac yn ymateb i gryfderau, anghenion a dyheadau unigol. Mae'n meithrin lles cadarnhaol, perthnasoedd cryf ac ymdeimlad o berthyn, gan alluogi dysgwyr i ymgysylltu'n llawn â'u haddysg a gwneud cynnydd parhaus.

Beth mae hyn yn ei olygu i ddysgwyr ym Merthyr Tudful...

Mae'r nod hwn yn gosod disgwyliad clir y bydd pob dysgwr ym Merthyr Tudful yn cael profiad o system addysg sydd wedi'i seilio ar ymdeimlad o berthyn, tegwch a dyheadau uchel. Mae'n gosod cynhwysiant nid fel ymyrraeth arbenigol ar gyfer rhai dysgwyr yn unig, ond fel egwyddor ganolog sy'n llywio arweinyddiaeth, addysgu, cymorth a gweithio mewn partneriaeth ar draws pob ysgol a lleoliad.

I ddysgwyr, mae hyn yn golygu bod eu hunaniaeth, eu hanghenion a'u hamgylchiadau unigol yn cael eu cydnabod yn gynnar ac yr ymatebir iddynt drwy arferion cyson sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd, yn dileu rhwystrau rhag ymgysylltu ac yn eu galluogi i gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol. Mae'n sicrhau bod llesiant, tegwch a mynediad at ddysgu o ansawdd uchel yn ganolog i'w profiad bob dydd, a bod dyheadau ar gyfer eu cynnydd yn parhau'n uchel waeth beth fo'u cefndir neu eu man cychwyn.

Mae'r deilliannau allweddol yn cynnwys:

- Ymdeimlad o berthyn a diogelwch emosiynol – Mae dysgwyr yn cael profiad o amgylcheddau diogel a pharchus lle mae perthnasoedd cadarnhaol ac ymdeimlad cryf eu bod yn cael eu hadnabod a'u deall yn sail i ymgysylltiad a pharodrwydd i ddysgu.
- Mynediad teg at addysgu o ansawdd uchel – Mae cymorth yn rhagweithiol, yn hyblyg ac yn seiliedig ar anghenion, gan sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cael mynediad at ddysgu uchelgeisiol heb ddibynnu ar drothwyon neu labeli ffurfiol.
- Disgwyliadau uchel ac uchelgais – Cefnogir pob dysgwr i gyflawni nodau uchelgeisiol drwy gymorth priodol, anogaeth gyson a diwylliant sy'n credu yn ei botensial.
- Cysondeb ar draws ysgolion a lleoliadau – Mae dysgwyr yn elwa ar ddulliau cydlynol a chyson o ymdrin â chynhwysiant sy'n lleihau amrywiadau mewn profiadau ac yn sicrhau tegwch ar draws y system.
- Llais y dysgwr – Mae plant a phobl ifanc yn cyfrannu'n ystyrlon at benderfyniadau am eu dysgu, y cymorth a ddarperir iddynt a'u profiad ehangach yn yr ysgol.
- Gwell ymgysylltiad, llesiant a deilliannau – Mae presenoldeb cryfach, llai o waharddiadau, gwell llesiant emosiynol a chyrhaeddiad uwch yn deillio o ddulliau cynhwysol sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd.

Pam mae hyn yn bwysig

Drwy ganolbwyntio ar sicrhau 'Darpariaeth Gynhwysol, Deilliannau Teg', mae strategaeth Dyfodol Disglair yn ceisio:

- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau drwy sicrhau bod dysgwyr sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf yn cael cymorth amserol sy'n seiliedig ar anghenion, gan adlewyrchu egwyddorion cyffredinoliaeth ac ymyrraeth gynnar.
- Cryfhau cydlyniant a thegwch ar draws y system, gan gefnogi'r nod o sicrhau mynediad teg at wasanaethau o ansawdd uchel.
- Gwella ymgysylltiad a llesiant dysgwyr, gan gyd-fynd â'r egwyddor o greu'r amodau sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu eu galluoedd a ffynnu.
- Sicrhau deilliannau uchelgeisiol i bob dysgwr, drwy gynnal disgwyliadau uchel, sicrhau mynediad teg at addysgu rhagorol a darparu cymorth ymatebol, gan adlewyrchu'r nod o alluogi pob plentyn a pherson ifanc i wireddu ei botensial i'r eithaf.
- Datblygu system addysg fwy cynhwysol a chynaliadwy, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn ymateb i anghenion amrywiol dysgwyr, teuluoedd a chymunedau.





Yr Hyn y Byddwn yn Ymrwymo I'w Wneud...
Er mwyn cyflawni'r nod hwn, byddwn yn gweithio gyda'n hysgolion a'n partneriaid i:

Ymrwymiad 4
Cryfhau dulliau o ymdrin â chynhwysiant a thegwch ar draws pob ysgol a gwasanaeth, gan ddatblygu gweithlu medrus a hyderus sy'n gallu diwallu anghenion amrywiol dysgwyr.

Ymrwymiad 5
Gwella presenoldeb, cyfranogiad ac ymgysylltiad dysgwyr drwy ddileu rhwystrau i ddysgu a chydweithio â theuluoedd a phartneriaid i helpu pob dysgwr i gyflawni a ffynnu.

Ymrwymiad 6
Hyrwyddo cynhwysiant a thegwch drwy adnabod anghenion yn gynnar, ymyrraeth amserol a chymorth amlasiantaethol effeithiol i ddysgwyr a theuluoedd.

Sut Olwg sydd ar Lwyddiant...

I Ddysgwyr
Mae mwy o ddysgwyr yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, yn parhau i ymgysylltu ag addysg ac yn cymryd rhan lawn yn eu dysgu. Mae ysgolion yn darparu amgylcheddau diogel, cynhwysol a chefnogol lle mae dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn ac yn profi llai o darfu ar eu haddysg. Drwy adnabod anghenion yn gynnar a darparu cymorth, her ac ymyrraeth briodol, caiff rhwystrau i ddysgu eu dileu a chryfderau eu meithrin, gan alluogi pob dysgwr i wneud cynnydd cryf a chyflawni ei botensial. Mae dysgwyr yn elwa ar well llesiant, perthnasoedd cadarnhaol a hyder i gael mynediad at gymorth, gan ddatblygu'r gwydnwch, yr hyder a'r annibyniaeth sydd eu hangen i lwyddo yn yr ysgol a thu hwnt.

I Ysgolion
Mae ysgolion yn darparu amgylcheddau cynhwysol a meithringar lle mae pob dysgwr yn cael y cymorth, yr her a'r cyfleoedd sydd eu hangen arno i lwyddo. Drwy addysgu o ansawdd uchel, ymyrraeth effeithiol a phartneriaethau cryf gyda theuluoedd ac asiantaethau eraill, cefnogir dysgwyr i fynychu'n rheolaidd, ymgysylltu'n llawn ag addysg a chyflawni eu potensial. Mae dulliau cynhwysol o ymdrin ag ymddygiad a llesiant yn helpu i greu cymunedau ysgol diogel a chadarnhaol, gan leihau gwaharddiadau a sicrhau bod dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi, ac yn gallu ffynnu.

I'r Awdurdod Lleol
Mae system addysg gynyddol gynhwysol a theg ar waith, lle caiff anghenion dysgwyr eu hadnabod a'u cefnogi cyn gynted â phosibl, gan arwain at ddarpariaeth fwy cyson ledled y Fwrdeistref, gwell presenoldeb, llai o waharddiadau ac amserlenni rhan-amser, ac ymgysylltiad cryfach â dysgu. Mae dulliau cynhwysol, ataliol sy'n seiliedig ar berthnasoedd wedi'u gwreiddio ar draws pob ysgol, gan sicrhau bod pob dysgwr, waeth beth fo'i gefndir, ei allu neu ei anghenion dysgu ychwanegol, yn gallu cymryd rhan lawn, cyflawni deilliannau cadarnhaol a ffynnu.

I Rieni, Gofalwyr a'r Gymuned Ehangach
Mae teuluoedd, ysgolion a sefydliadau partner yn cydweithio i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cymorth amserol ac effeithiol ac yn parhau i ymgysylltu â'u dysgu. Mae partneriaethau cryf yn helpu i adnabod anghenion a mynd i'r afael â nhw'n gynnar, gwella presenoldeb, llesiant a chynhwysiant, a lleihau rhwystrau rhag llwyddo. O ganlyniad, cefnogir pob dysgwr i ffynnu, gan arwain at well cyfleoedd mewn bywyd, llesiant cymunedol cryfach a llai o anghydraddoldebau ledled Merthyr Tudful.

ARWEINYDDIAETH GREF, YSGOLION CRYF



Mae nod 'Arweinyddiaeth Gref, Ysgolion Cryf' o fewn strategaeth Dyfodol Disglair yn anelu at sicrhau bod pob ysgol ym Merthyr Tudful yn cael ei harwain gan arweinwyr a chyrff llywodraethu hyderus sy'n cael eu cefnogi'n dda ac sydd â'r gallu a'r eglurder i ganolbwyntio ar sicrhau'r deilliannau gorau posibl i blant a phobl ifanc. Caiff arweinyddiaeth ei chryfhau drwy gymorth cydlynol a disgwyliadau clir, gan feithrin gallu arwain ar bob lefel er mwyn creu system addysg gynaliadwy sy'n gwella ei hun.

Diffinnir 'ysgolion cryf' gan addysgu a dysgu o ansawdd uchel, arferion uchelgeisiol a ffocws diwyro ar wella deilliannau a chyfleoedd bywyd pob dysgwr. Mae'r nod hwn yn dwyn ynghyd ddatblygu arweinyddiaeth, llywodraethu effeithiol, cymorth ar draws y system a buddsoddi mewn amgylcheddau dysgu cynaliadwy er mwyn creu'r amodau ar gyfer rhagoriaeth, cysondeb a gwelliant parhaus ar draws ysgolion.

Beth mae hyn yn ei olygu i ddysgwyr ym Merthyr Tudful...

Mae'r nod hwn yn sicrhau bod dysgwyr yn cael profiad o ysgolion lle mae arweinyddiaeth gref sy'n cael ei chefnogi'n dda yn creu'r amodau ar gyfer dysgu o ansawdd uchel bob dydd. Pan fo gan arweinwyr y gallu gweithredol a'r eglurder sydd eu hangen arnynt, gellir neilltuo mwy o amser a ffocws i addysgu rhagorol, profiadau dysgu cyfoethog a lles plant a phobl ifanc.

Mae'r deilliannau allweddol yn cynnwys:


- Darpariaeth gyson o ansawdd uchel – Mae dysgwyr yn elwa ar ysgolion lle mae'r arweinyddiaeth yn hyderus, yn cael ei chefnogi ac yn gallu blaenoriaethu addysgu, llesiant a gwelliant parhaus.
- Dyheadau uwch a deilliannau gwell – Mae arweinyddiaeth rymus yn sbarduno uchelgais ar gyfer pob dysgwr, gan leihau amrywiadau mewn deilliannau a sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cyflawni ei botensial.
- Ysgolion sydd wedi'u paratoi ar gyfer y dyfodol – Mae buddsoddi mewn arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol, gwelliant ar draws y system a chymorth yn sicrhau bod ysgolion yn gwella'n barhaus, a bod dysgwyr wedi'u paratoi ar gyfer addysg bellach, cyflogaeth a dinasyddiaeth weithgar.

Pam mae hyn yn bwysig...

Drwy ganolbwyntio ar 'Arweinyddiaeth Gref, Ysgolion Cryf', mae strategaeth Dyfodol Disglair yn ceisio:

- Creu'r amodau ar gyfer dysgu cyson o ansawdd uchel drwy sicrhau bod gan arweinwyr y cymorth, y gallu a'r hyder i flaenoriaethu addysgu, llesiant a gwelliant parhaus.
- Sicrhau safonau uchel yn gyson ar draws pob ysgol drwy arweinyddiaeth gref ac effeithiol, disgwyliadau clir a llywodraethu cadarn, gan sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar addysgu a darpariaeth o ansawdd uchel.
- Meithrin gallu arwain ar bob lefel er mwyn creu system addysg gynaliadwy sy'n gwella ei hun.
- Lleihau anghydraddoldebau ym mhrofiadau a deilliannau dysgwyr drwy arweinyddiaeth gref, disgwyliadau uchel a darpariaeth gyson ar draws pob ysgol, gan gyd-fynd ag egwyddorion cyffredinoliaeth gymesur a mynediad teg at addysg o ansawdd uchel.
- Cryfhau arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol a chymorth i wella ysgolion er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i lwyddo mewn addysg bellach, cyflogaeth a bywyd.
- Buddsoddi yn ystâd ysgolion a'i moderneiddio, gan greu amgylcheddau dysgu cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n barod ar gyfer y dyfodol ac sy'n cefnogi llesiant, cynhwysiant a rhagoriaeth addysgol.





Yr Hyn y Byddwn yn Ymrwymo I'w Wneud...
Er mwyn cyflawni'r nod hwn, byddwn yn gweithio gyda'n hysgolion a'n partneriaid i:

Ymrwymiad 7
Datblygu arweinyddiaeth, llywodraethu ac atebolrwydd cryf ar bob lefel er mwyn sicrhau deilliannau gwell i bob dysgwr.

Ymrwymiad 8
Sbarduno gwelliant parhaus mewn ysgolion drwy gydweithio, atebolrwydd ar y cyd, a her a chymorth cymesur.

Ymrwymiad 9
Sicrhau defnydd effeithlon a chynaliadwy o adnoddau ariannol, ffisegol a digidol er mwyn cynnal darpariaeth o ansawdd uchel, sicrhau'r effaith addysgol fwyaf posibl a gwella deilliannau dysgwyr.

Sut Olwg sydd ar Lwyddiant...

I Ddysgwyr
Mae dysgwyr yn elwa ar arweinyddiaeth gref a sefydlog, addysgu o ansawdd uchel a diwylliant o ddisgwyliadau uchel sy'n cefnogi cyflawniad a llesiant. Mae gweithlu medrus ac ymroddedig, sy'n cydweithio ar draws ysgolion, yn sicrhau mwy o gysondeb mewn darpariaeth addysgol a mynediad at arbenigedd, cyfleoedd a chymorth. Gyda'i gilydd, mae'r cryfderau hyn yn galluogi pob dysgwr i wneud cynnydd cadarn a gwireddu ei botensial.

I Ysgolion
Caiff ysgolion eu harwain gan arweinwyr hyderus ac effeithiol sy'n cydweithio i sbarduno gwelliant, cynnal safonau uchel a gwella deilliannau dysgwyr. Cefnogir staff drwy ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel, cymorth llesiant a chyfleoedd datblygu gyrfa, gan greu gweithlu medrus a brwdfrydig. Mae llywodraethu cryf, gweithio mewn partneriaeth a chynllunio olyniaeth effeithiol yn helpu i sicrhau bod gan ysgolion y gallu arwain, yr arbenigedd a'r sefydlogrwydd sydd eu hangen i gynnal rhagoriaeth a gwelliant parhaus ledled y Fwrdeistref.

I'r Awdurdod Lleol
Mae gan Ferthyr Tudful system addysg gref, gynaliadwy a chydweithredol, wedi'i hategu gan arweinyddiaeth effeithiol, cyfathrebu clir, sefydlogrwydd y gweithlu a chyfrifoldeb ar y cyd am welliant. Caiff gallu arwain ei ddatblygu a'i rannu ar draws ysgolion, gyda chynllunio olyniaeth cadarn, rhwydweithiau proffesiynol a diwylliant o gymorth gan gymheiriaid yn sbarduno gwelliant parhaus. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi, mae llywodraethwyr ac aelodau etholedig yn darparu her ac atebolrwydd effeithiol, ac mae ysgolion yn elwa ar amgylcheddau dysgu modern, cynhwysol a digidol sy'n diwallu anghenion newidiol dysgwyr a chymunedau.

I Rieni, Gofalwyr a'r Gymuned Ehangach
Mae gan rieni, gofalwyr a chymunedau hyder yn eu hysgolion lleol, wedi'i gefnogi gan arweinyddiaeth gref, llywodraethu effeithiol a darpariaeth addysgol o ansawdd uchel. Mae arweinyddiaeth ysgol sefydlog a chydweithredol yn helpu i greu profiadau dysgu cyson, cryfhau cyfleoedd lleol a gwella deilliannau i ddysgwyr. Drwy gyfranogiad gweithredol llywodraethwyr, aelodau etholedig a chynrychiolwyr cymunedol, mae'r system addysg yn dod yn fwy gwydn a chynaliadwy, gyda ffocws clir ar sicrhau llwyddiant hirdymor i blant a phobl ifanc ledled Merthyr Tudful.

PARTNERIAID CYSYLLTIEDIG, DYSGWYR SY'N FFYNNU



Mae nod 'Partneriaid Cysylltiedig, Dysgwyr sy'n Ffynnu' yn cydnabod bod sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc yn gofyn am bartneriaethau cryf, cyfrifoldeb ar y cyd a gweithredu cydlynol ar draws y system gyfan. Mae'n dod ag ysgolion, teuluoedd, gwasanaethau'r Awdurdod Lleol, partneriaid iechyd, sefydliadau cymunedol, cyflogwyr, partneriaid rhanbarthol a'r trydydd sector ynghyd o amgylch uchelgais gyffredin, gan sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cymorth, y cyfleoedd a'r profiadau sydd eu hangen arno i ffynnu.

Mae'r nod hwn yn hyrwyddo dull cydweithredol sy'n seiliedig ar le, lle nad yw ysgolion yn sefydliadau ar wahân, ond yn rhannau annatod o'u cymunedau, gan weithio ochr yn ochr ag ystod o bartneriaid i wella dysgu, lles a chyfleoedd bywyd. Ei nod yw cryfhau ymgysylltiad teuluoedd a chymunedau, gwella mynediad at wasanaethau cymorth, a chreu llwybrau mwy di-dor drwy addysg ac ymlaen i ddysgu pellach a chyflogaeth.

Beth mae hyn yn ei olygu i ddysgwyr ym Merthyr Tudful...

Mae dysgwyr, teuluoedd a chymunedau yn elwa ar system fwy cysylltiedig a chydweithredol, lle mae ysgolion, gwasanaethau lleol, sefydliadau cymunedol a phartneriaid ehangach yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi plant a phobl ifanc i ffynnu. Drwy gryfhau perthnasoedd, gwella mynediad at gyfleoedd a chydlynu cymorth o amgylch anghenion dysgwyr, mae'r nod hwn yn helpu i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn teimlo'n gysylltiedig, yn cael ei gefnogi ac yn gallu gwireddu ei botensial.

Mae'r canlyniadau allweddol yn cynnwys:

- Partneriaethau cryfach o amgylch pob dysgwr – Mae ysgolion, teuluoedd, gwasanaethau'r Awdurdod Lleol, partneriaid iechyd, sefydliadau cymunedol a chyflogwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cymorth cydlynol, gan helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau a chael mynediad at y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i lwyddo.
- Mwy o ymgysylltiad gan deuluoedd a chymunedau – Mae rhieni, gofalwyr a chymunedau yn chwarae rhan weithredol wrth gefnogi dysgu a lles, gan gryfhau'r berthynas rhwng ysgolion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.
- Gwell mynediad at gyfleoedd a chymorth – Mae dysgwyr yn elwa ar ystod ehangach o weithgareddau cyfoethogi, profiadau diwylliannol, gwasanaethau lles, addysg gyrfaoedd a chyfleoedd dysgu yn y gymuned sy'n ehangu gorwelion ac yn codi dyheadau.
- Ymdeimlad cryfach o berthyn a chysylltiad – Drwy ddull sy'n seiliedig ar le, mae dysgwyr yn datblygu cysylltiadau cryfach â'u hysgolion, eu cymunedau a'u hardal leol, gan gefnogi lles, cyfranogiad a hunaniaeth gadarnhaol.
- Gwell canlyniadau a chyfleoedd mewn bywyd – Drwy gysoni ymdrechion ysgolion, teuluoedd a phartneriaid, mae'r system yn gallu lleihau anghydraddoldebau, gwella lles a chyflawniad, a sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cymorth, y profiadau a'r llwybrau sydd eu hangen arnynt i ffynnu mewn addysg, cyflogaeth a bywyd.

Pam mae hyn yn bwysig...

Drwy ganolbwyntio ar 'Partneriaid Cysylltiedig, Dysgwyr sy'n Ffynnu', mae strategaeth **Dyfodol Disglair** yn ceisio:

- Lleihau anghydraddoldebau o ran mynediad at gyfleoedd, cymorth a phrofiadau drwy sicrhau bod pob dysgwr, waeth beth fo'i gefndir, ei angen neu ei amgylchiadau, yn gallu elwa ar gymorth cydlynol, cyfleoedd cyfoethogi a gwasanaethau sy'n ei helpu i ffynnu.
- Cryfhau partneriaethau o amgylch pob dysgwr drwy ddod ag ysgolion, teuluoedd, gwasanaethau'r Awdurdod Lleol, iechyd, sefydliadau cymunedol, cyflogwyr, partneriaid rhanbarthol a'r trydydd sector ynghyd i ddarparu cymorth cydgysylltiedig a rhannu cyfrifoldeb am lwyddiant dysgwyr.
- Gwella lles, ymgysylltiad a phresenoldeb drwy ymyrraeth gynnar gydlynol, gweithio amlasiantaethol effeithiol a pherthnasoedd cryfach sy'n helpu i gael gwared ar rwystrau i ddysgu a chyfranogi.
- Creu system leol fwy cysylltiedig a chydlynol lle mae partneriaid yn cydweithio o amgylch anghenion plant, pobl ifanc a theuluoedd, gan sicrhau bod cymorth yn hygyrch, yn ymatebol ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau lleol.





Yr Hyn y Byddwn yn Ymrwymo iddo...
Er mwyn cyflawni'r nod hwn, byddwn yn gweithio gyda'n hysgolion a'n partneriaid i:

Ymrwymiad 10
Cryfhau partneriaethau, cydweithio amlasiantaethol ac atebolrwydd ar y cyd i wella lles, presenoldeb a chanlyniadau i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Ymrwymiad 11
Creu llwybrau cryfach i addysg bellach, hyfforddiant, cyflogaeth a dysgu gydol oes drwy gydweithio â chyflogwyr, partneriaid a sefydliadau cymunedol.

Ymrwymiad 12
Manteisio i'r eithaf ar gyfraniad adnoddau cymunedol, cyfleoedd diwylliannol ac amgylcheddau dysgu i gryfhau ymdeimlad o berthyn, cyfranogiad a chyfleoedd mewn bywyd.

Sut Mae Llwyddiant yn Edrych...

I Ddysgwyr
Mae dysgwyr yn elwa ar gysylltiadau cryf rhwng ysgolion, teuluoedd, cymunedau a sefydliadau partner, gan eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u cefnogi, ac i ymgysylltu â'u dysgu. Drwy gael mynediad at gyfleoedd cyfoethogi, profiadau diwylliannol a gwasanaethau cymorth cydlynol, mae dysgwyr yn ehangu eu gorwelion, yn codi eu dyheadau ac yn datblygu'r hyder a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y dyfodol. Mae partneriaethau cryf yn hybu lles, presenoldeb ac ymdeimlad o berthyn, gan gryfhau cysylltiad dysgwyr â'r Gymraeg, diwylliant Cymru a'u cymuned leol, a'u paratoi ar gyfer dysgu pellach, cyflogaeth a dinasyddiaeth weithgar.

I Ysgolion
Mae ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd, cymunedau ac asiantaethau allanol i ddarparu cymorth cydlynol a phrofiadau dysgu cyfoethog i bob dysgwr. Mae cysylltiadau cymunedol cryf, cyfleoedd diwylliannol ac ymgysylltiad â chyflogwyr yn helpu i ehangu dyheadau, cryfhau ymgysylltiad dysgwyr a chysylltu dysgu â'r byd go iawn. Drwy hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, arferion cynhwysol a buddsoddi mewn darpariaeth sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, mae ysgolion yn creu amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel sy'n ymateb i anghenion esblygol dysgwyr a chymunedau.

I'r Awdurdod Lleol
Mae partneriaethau cryf ar draws addysg, iechyd, sefydliadau cymunedol, cyflogwyr ac asiantaethau eraill yn darparu cymorth cydlynol sy'n helpu plant a phobl ifanc i ffynnu. Mae gan ddysgwyr well mynediad at gyfleoedd cyfoethogi, diwylliannol a rhai sy'n gysylltiedig â chyflogwyr, gan ehangu cyfranogiad a dyheadau tra'n lleihau anghydraddoldebau o ran mynediad. Mae gweithio amlasiantaethol effeithiol yn gwella lles, presenoldeb a chanlyniadau, gyda chefnogaeth amgylcheddau dysgu cynhwysol a diogel.

I Rieni, Gofalwyr a'r Gymuned Ehangach
Mae rhieni, gofalwyr a chymunedau yn chwarae rhan weithredol wrth gefnogi plant a phobl ifanc i lwyddo, gan weithio ochr yn ochr ag ysgolion a sefydliadau partner i ddarparu cymorth a chyfleoedd cydlynol. Mae partneriaethau cryf yn helpu teuluoedd i gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt, yn cryfhau dysgu a lles, ac yn cynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau cymunedol a dysgu gydol oes. Gyda'i gilydd, mae'r ymdrechion hyn yn meithrin dyhead, gwydnwch a chydlyniant cymunedol, gan helpu i leihau anghydraddoldebau a gwella cyfleoedd bywyd ledled Merthyr Tudful.



CYFLAWNI'R STRATEGAETH

Mae cyflawni strategaeth **Dyfodol Disglair** yn gofyn am ddull clir, cydlynol a system gyfan o ymdrin â rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd. Mae'r model hwn yn nodi sut y bydd yr Awdurdod Lleol, ysgolion a phartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i droi blaenoriaethau strategol yn effaith ystyrlon i ddysgwyr, gan sicrhau ar yr un pryd fod perchnogaeth dros gyflawni yn cael ei gosod ar y lefel fwyaf priodol. Mae'n adlewyrchu symudiad tuag at fodel gweithredu a arweinir gan ysgolion, wedi'i ategu gan arweinyddiaeth strategol gref gan yr Awdurdod Lleol, gweithio effeithiol mewn partneriaeth, a threfniadau monitro a gwerthuso cadarn.

Drwy'r dull hwn, mae'r strategaeth yn sicrhau bod y gwaith cyflawni yn ymateb i anghenion lleol ac yn gyson ar draws y system, gyda llinellau atebolrwydd clir, adrodd tryloyw, a ffocws parhaus ar wella canlyniadau, lles a chyfleoedd bywyd i bob dysgwr.

1. Dyluniad y System

Mae dyluniad system Dyfodol Disglair yn darparu'r strwythur ar gyfer sut mae ysgolion, gwasanaethau a phartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r strategaeth. Mae'n sefydlu rolau, cyfrifoldebau a pherthnasoedd clir ar draws y system, gan sicrhau bod cynllunio, cyflawni ac atebolrwydd yn cyd-fynd â'i gilydd. Drwy gydweithio cryf, arweinyddiaeth effeithiol a gwerthuso parhaus, mae dyluniad y system yn cefnogi cyfrifoldeb ar y cyd a gwelliant er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bob dysgwr.

Awdurdod Lleol (Arweinyddiaeth Strategol a Sicrwydd)

Mae'r Awdurdod Lleol yn pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer addysg ar draws y Fwrdeistref drwy sefydlu nodau, ymrwymiadau a chanlyniadau clir. Mae'n darparu her a chymorth i ysgolion drwy fodel gwella ysgolion cymesur, gan gynnwys defnyddio Partneriaid Cydweithio Ysgolion. Mae'r Awdurdod hefyd yn arwain cydlynu ar draws y system rhwng addysg, iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid ehangach er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig o gefnogi plant a phobl ifanc. Yn ogystal, mae'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol a disgwyliadau Llywodraeth Cymru, gan oruchwylio monitro perfformiad, gwerthuso ac adrodd er mwyn sbarduno gwelliant parhaus ac atebolrwydd ar draws y system addysg.

Ysgolion (Prif Gyfrifoldeb am Gyflawni a Gweithredu)

Mae ysgolion yn gyfrifol am arwain y gwaith o gyflwyno addysgu a dysgu, cynhwysiant, gweithredu'r cwricwlwm a gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned o fewn eu cyd-destun lleol. Byddant yn ymgorffori blaenoriaethau strategaeth Dyfodol Disglair yn eu Cynlluniau Datblygu Ysgol, gan sicrhau bod gweithgarwch gwella yn cyd-fynd ag uchelgeisiau ledled y Fwrdeistref, tra'n ymateb i anghenion penodol eu dysgwyr a'u cymunedau. Bydd ysgolion yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithiol i fynd i'r afael â blaenoriaethau, heriau a chyfleoedd lleol, ac yn cymryd rhan weithredol mewn cydweithio rhwng cymheiriaid, adolygu a gweithgareddau gwella'r system er mwyn cryfhau arferion a chyfrannu at lwyddiant cyffredinol y system addysg ledled Merthyr Tudful.

Partneriaethau (Integreiddio'r System ac Effaith Ehangach)

Drwy gydweithio amlasiantaethol, gan gynnwys trefniadau megis y Bartneriaeth Dysgu a Dyfodol, bydd partneriaid ar draws addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, cyflogadwyedd a'r sector gwirfoddol yn gweithio gyda'i gilydd i gysoni gwasanaethau ac adnoddau o amgylch blaenoriaethau a rennir.Mae hyn yn cynnwys cryfhau cymorth cynnar ac atal, cefnogi lles dysgwyr, gwella presenoldeb ac ymgysylltiad (gan gynnwys cymorth i ddysgwyr mewn darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) a'r rhai sydd mewn perygl o ddod yn NEET), a datblygu llwybrau ôl-16 effeithiol. Drwy weithio ar y cyd, bydd partneriaid yn darparu cymorth cydlynol a chydgysylltiedig i blant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau, gan sicrhau bod anghenion yn cael eu nodi'n gynnar a bod cymorth yn cael ei ddarparu mewn ffordd gydlynol ac effeithiol.

2. Fframwaith Atebolrwydd

Mae'r fframwaith atebolrwydd ar gyfer **Dyfodol Disglair** yn sicrhau bod trefniadau clir, tryloyw a chymesur ar waith ar gyfer goruchwylio, herio a chefnogi ar draws y system addysg. Mae'n diffinio sut y rhennir cyfrifoldeb am gyflawni rhwng yr Awdurdod Lleol, ysgolion a phartneriaid, gan gynnal llinellau atebolrwydd cadarn ar gyfer canlyniadau. Ategir y fframwaith gan fonitro rheolaidd, adolygu perfformiad ac adrodd cyhoeddus, gan sicrhau bod cynnydd yn cael ei werthuso'n gyson, bod cryfderau'n cael eu datblygu ymhellach, a bod ymyrraeth amserol yn cael ei darparu lle bo angen. Drwy'r dull hwn, mae'r fframwaith yn cefnogi diwylliant o ddisgwyliadau uchel, cyfrifoldeb ar y cyd a gwelliant parhaus ar draws pob ysgol a gwasanaeth.

Aelodau Etholedig / Pwyllgor Craffu

Bydd Aelodau Etholedig yn darparu her, goruchwyliaeth ac atebolrwydd democrataidd ar gyfer cyflawni strategaeth **Dyfodol Disglair** drwy ddiweddariadau perfformiad rheolaidd a chraffu ar gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt. Bydd Adroddiad Blynyddol **Dyfodol Disglair** yn darparu asesiad cynhwysfawr o effaith a chyflawniad, tra bydd adroddiadau addysg ehangach a gyflwynir i'r Cabinet, y Pwyllgor Craffu a fforymau llywodraethu eraill yn amlygu'n glir eu cyfraniad at amcanion y strategaeth. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod cynnydd yn parhau i fod yn dryloyw, yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol, ac yn destun adolygiad ac atebolrwydd priodol drwy gydol oes y strategaeth.

Cyfarwyddwr Addysg a'r Tîm Arweinyddiaeth

Mae'r Cyfarwyddwr Addysg a'r Tîm Arweinyddiaeth yn atebol am gyflawni strategaeth **Dyfodol Disglair** yn gyffredinol ac am sicrhau gwelliant parhaus mewn canlyniadau addysg ledled y Fwrdeistref. Maent yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer perfformiad y system, gan sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu trosi'n gamau gweithredu effeithiol ac yn arwain at effaith fesuradwy. Mae hyn yn cynnwys arwain y broses Adolygu Perfformiad a Chymorth Ysgolion er mwyn darparu cymorth, her a sicrwydd, goruchwylio gwerthusiad system gyfan o gynnydd a chanlyniadau, a chydlynu gweithgarwch ymyrryd a gwella lle bo angen. Drwy'r rôl hon, maent yn sicrhau bod y system addysg yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu darpariaeth o ansawdd uchel, mynd i'r afael â heriau sy'n dod i'r amlwg, a chyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn y strategaeth.

Arweinwyr Ysgolion a Chyrff Llywodraethu

Mae Arweinwyr Ysgolion a Chyrff Llywodraethu yn atebol am ansawdd yr addysg a'r canlyniadau a gyflawnir yn eu hysgolion, gan sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cymorth sydd ei angen i lwyddo a ffynnu. Maent yn gyfrifol am gyflawni blaenoriaethau gwella ysgolion yn unol ag uchelgeisiau strategaeth **Dyfodol Disglair**, gan ddefnyddio prosesau hunanwerthuso cadarn i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Drwy gynllunio gwelliant effeithiol, gwneud penderfyniadau gwybodus a chymryd rhan weithredol mewn trefniadau partneriaeth a herio rhwng cymheiriaid, bydd arweinwyr ysgolion a llywodraethwyr yn sbarduno gwelliant parhaus, yn cryfhau arferion proffesiynol ac yn cyfrannu at lwyddiant cyffredinol y system addysg ledled Merthyr Tudful.

Fforwm Partneriaeth Addysg (FPA)

Mae'r Fforwm Partneriaeth Addysg (FPA) yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu trosolwg strategol a sicrhau perchnogaeth ar y cyd o strategaeth **Dyfodol Disglair**. Mae'n gyfrifol am herio cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a'r canlyniadau y cytunwyd arnynt, cefnogi gweithrediad effeithiol camau gweithredu strategol, a chraffu ar effaith gweithgarwch gwella ar draws y system addysg. Drwy adolygu rheolaidd a her adeiladol, bydd y FPA yn helpu i nodi cryfderau, mynd i'r afael â materion sy'n dod i'r amlwg, a phennu'r camau nesaf sydd eu hangen i gynnal momentwm a sicrhau gwelliant parhaus i blant a phobl ifanc ledled Merthyr Tudful.

3. Mesur Llwyddiant a Gwerthuso Effaith

Bydd Strategaeth Dyfodol Disglair yn cael ei chefnogi gan gynllun cyflawni manwl sy'n nodi camau gweithredu, cerrig milltir a mesurau llwyddiant clir. Er bod y strategaeth yn pennu'r weledigaeth hirdymor ar gyfer addysg ym Merthyr Tudful, bydd y cynllun cyflawni yn sicrhau y gellir monitro cynnydd yn effeithiol, dathlu cyflawniadau a nodi meysydd i'w gwella.

Defnyddir cyfres gytbwys o fesurau perfformiad i werthuso effaith y strategaeth drwy gydol ei hoes. Bydd y mesurau hyn yn canolbwyntio nid yn unig ar gyrhaeddiad addysgol, ond hefyd ar gynhwysiant, lles, cynaliadwyedd y gweithlu ac effeithiolrwydd cyffredinol y system addysg. Bydd y dangosyddion allweddol yn cynnwys:

- Cyfraddau presenoldeb a gwelliannau yn ymgysylltiad dysgwyr.
- Lefelau absenoldeb parhaus, yn enwedig ymhlith dysgwyr a grwpiau sy'n agored i niwed.
- Canlyniadau asesu a chyrhaeddiad ar draws pob cyfnod addysg.
- Cyfraddau gwahardd a dangosyddion ymddygiad er mwyn monitro cynhwysiant a lles dysgwyr.
- Digonolrwydd lleoliadau ADY, gan gynnwys y gallu i ddiwallu anghenion dysgwyr o fewn darpariaeth leol.
- Cyfranogiad a chynnydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg, gan gefnogi uchelgeisiau'r Fwrdeistref ar gyfer y Gymraeg.
- Mesurau ar gyfer y llwybr arweinyddiaeth, gan gynnwys cynllunio olyniaeth, datblygu arweinyddiaeth a symud ymlaen i rolau arweinyddiaeth.
- Dangosyddion recriwtio a chadw staff, gan sicrhau bod ysgolion a gwasanaethau yn gallu denu, datblygu a chadw gweithlu o ansawdd uchel.

Bydd y mesurau hyn yn cael eu hategu gan dystiolaeth ansoddol a gesglir gan ddysgwyr, teuluoedd, ysgolion, llywodraethwyr, staff a phartneriaid er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei asesu drwy ganlyniadau a phrofiadau byw fel ei gilydd. Bydd trefniadau adrodd ac adolygu rheolaidd yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, gan alluogi'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid i werthuso effeithiolrwydd ymyriadau, ymateb i heriau sy'n dod i'r amlwg, a sicrhau bod yr uchelgeisiau a nodir yn Dyfodol Disglair yn arwain at welliannau ystyrlon a chynaliadwy i blant a phobl ifanc ledled Merthyr Tudful.

4. Egwyddorion sy'n Sail i'r Cyflawni
Wrth gyflawni **Dyfodol Disglair**, ceir cyfres o egwyddorion craidd sy'n sail i'r gwaith:

- Sybsidiaredd: Gwneud penderfyniadau ar y lefel sydd agosaf at ddysgwyr (ysgolion).
- Tegwch: Cyfeirio adnoddau ar sail angen.
- Cydweithio: Ysgolion a phartneriaid yn gweithio fel system gysylltiedig.
- Atebolrwydd: Rolau clir, adrodd tryloyw a chraffu rheolaidd.
- Cynaliadwyedd: Modelau ariannu a chyflawni sy'n hirdymor ac y gellir eu hehangu.

Yn ymarferol, mae'r model hwn yn golygu:
- Bod yr Awdurdod Lleol yn gweithredu'n strategol, gyda'r strategaeth yn ffurfio'r edefyn aur drwy ei waith (gweler y Fframwaith Hunanwerthuso isod).
- Bod ysgolion yn cael eu grymuso ac yn atebol am gyflawni.
- Bod partneriaethau'n cael eu cydlynu a bod ganddynt ddiben clir.
- Bod cyllid yn cael ei gysoni â blaenoriaethau, ei fonitro a'i ddefnyddio'n effeithiol.
- Bod cynnydd yn cael ei adolygu, ei herio a'i fireinio'n rheolaidd.

5. Dull Ariannol ac Adnoddau
Bydd cyflawni **Dyfodol Disglair** yn cael ei ategu gan ddull clir a chynaliadwy o ddefnyddio adnoddau ariannol ac adnoddau dynol, gan sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei gyfeirio i'r mannau lle y bydd yn cael yr effaith fwyaf ar ddysgwyr. Mewn cyd-destun o bwysau ariannol parhaus, mae'r strategaeth yn blaenoriaethu symudiad tuag at fodel a arweinir gan ysgolion, gydag adnoddau'n cael eu datganoli fwyfwy i ysgolion er mwyn galluogi dull cyflawni sy'n ymateb i anghenion lleol ac sy'n cyd-fynd â'u cyd-destunau a'u hanghenion unigol.

Rôl yr Awdurdod Lleol yw darparu trosolwg strategol, cydlynu a sicrwydd, gan sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, yn dryloyw ac yn unol â gofynion grant a disgwyliadau statudol. Drwy dimau presennol, ynghyd â chapasiti ychwanegol wedi'i dargedu yn y dyfodol lle bo angen, bydd yr Awdurdod Lleol yn cryfhau'r broses o oruchwylio ffrydiau cyllid allanol, yn cefnogi ysgolion i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd, ac yn sicrhau bod cyllid yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol ac yn cael ei fonitro o ran ei effaith.

Mae'r dull hwn yn cefnogi tegwch, cynaliadwyedd a gwerth am arian, yn lleihau dyblygu ac yn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio i wella canlyniadau, cryfhau darpariaeth a gwella cyfleoedd bywyd i bob dysgwr.

